# Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych 2022

## 323 - Beirniadaeth Barddoniaeth Bl.3 a 4 – 'Dail'
## Beirniad: Andrea Parry

Pwy sy'n poeni am ddyfodol creadigol ein cenedl? Yn sicr, nid y fi ar ôl cael y fraint o ddarllen campweithiau ein hegin feirdd. Mor braf a chalonogol oedd pori drwy'r cerddi a gweld y sbarc yna'n ymddangos droeon, y ddawn anhygoel " *I weld llais a chlywed llun*" ys dywed Gerallt Lloyd Owen. Felly diolch i bob un wan jac ohonoch am roi gwefr i mi.

Cawsom amrywiaeth o gerddi a synnais ar afael cadarn yr oedran yma ar fydr ac odl. Mae yma ddisgrifiadau byw, trosiadau a chyffelybiaethau ac iaith goeth iawn ar y cyfan. Penderfynodd rhan helaeth o'r beirdd ddisgrifio pob tymor yn ei dro a'r newidiadau i ddail y coed ac mae nifer yn personoli yn grefftus hefyd. Cyffyrddwyd ar bynciau aeddfed ac mae rhyw syniad neu linell yn aros yn y cof yn y mwyafrif o'r cerddi.

Gellid yn hawdd iawn wobrwyo dros hanner y cerddi a bu cnoi cil hir efo'r goreuon. Canmoliaeth uchel i Cybi, Ifan Huws,cwk, JJ, Bela Gwerin Hughes am eu dyfeisgarwch. Mae cylch bywyd a natur Mari a Delor yn llwyr deilwng,yn ogystal a syniad Katie o'r dail yn "*hymian cyfrinachau'r goedwig*".

Llwyddodd Jac yn y bocs i greu darlun breuddwydiol, cysurus o ddail yr hydref ac mae Jac ,mewn mydr ac odl wedi creu cerdd hyfryd o ddiolch am y gobaith newydd.

Mympwy personol aeth a hi – gwreiddioldeb, dawn dweud, adeiladu a chynnal cyfanwaith a gafael ar rhyw air, linell neu syniad oedd yn taro deuddeg ac yn mynnu aros ym mhair y cof. Syniad o'r goeden yn ganolbwynt i'r tymhorau sydd gan LM ac mae'n cyrraedd uchelfannau efo

# **Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych 2022**

“ *Haul yn tanio’r tyfiant*
*A’r boncyff efo mop o wallt*”
Mae Gph yn ein harwain drwy’r tymhorau gan ddisgrifio’n drawiadol ac mae’r clo yn wirioneddol aeddfed ac ysgytwol,
“*Dail fel dudalen wag o bapur*
*Eira disglair ar farwolaeth*
*Diwedd y daith*
*A’r pydru fel bedd*”
Rhinwedd Mali yw cynnal chwe pennill cywir a chyson mewn mydr ac odl glan gan gloi yn effeithiol
“ *ffrindiau a theulu yn dod ynghyd*
*I ddathlu dawns y dail.*”

Mae yma rhyw ymdeimlad o berthyn yn y gerdd, rhyddid a chael bod allan a chymysgu sydd yn ogwydd ffres wedi cyfnod heriol. Dyma’n gobaith!

Mali pia’r wobr gyntaf , Gph yn ail ac LM yn drydydd .
Llongyfarchiadau i bawb ar safon ardderchog!

1af – Mali Grug
2il – Gwendolyn Phillips
3ydd – Libby Marck